

BTEC Diploma Vocational Studies - Hospitality and Travel and Tourism Level 1



Yn gwyno

Mae ein cyrsiau Astudiaethau Galwedigaethol wedi eu cynllunio i'ch cyflwyno i faes astudio sy'n eich diddori chi ac yn eich helpu i ddatblygu sgiliau dysgu ehangach.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Rydych yn ansicr ynglyn â beth i'w wneud neu beth i arbenigo ynddo
- ... Rydych eisiau rhoi cynnig ar fwy nag un maes galwedigaethol
- ... Rydych eisiau cael syniad da o sut beth yw bywyd coleg

Beth fyddaf yn ei wneud?

Bydd y cwrs hwn yn cynnig lluo o gyfleoedd datblygu ichi, gan gynnwys dysgu pellach yn y coleg ar un o'n cyrsiau lefel nesaf, prentisiaeth neu gyflogaeth.



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn cael y cyfle i roi cynnig ar fwy nag un maes galwedigaethol a datblygu sgiliau ymarferol, trosglwyddadwy drwy gyflawni tasgau sy'n canolbwyntio ar arddangos yr hyn y gallwch ei wneud a'r hyn rydych wedi ei ddysgu. Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau ac asesiadau ymarferol.

Yr un unedau craidd sydd ar draws ein holl gyrsiau Astudiaethau Galwedigaethol, sy'n eich helpu i ddatblygu sgiliau o fewn eich maes chi. Os ydych eisiau newid cwrs, gallwch drosglwyddo'r unedau rydych wedi eu hastudio ar y cwrs hwn i'r cwrs nesaf, pe bai angen.

Mae'r unedau craidd y byddwch yn eu dilyn yn cynnwys:

Bod yn drefnus
Creu cynllun datblygu
Gweithio gydag eraill
Ymchwilio i bwnc

Gall unedau Lletygarwch a Theithio a Thwristiaeth gynnwys:

Paratoi a Choginio Bwyd
Gweini Bwyd a Diod
Archwilio Atyniadau Ymwelwyr Lleol
Archwilio Teithio a Thwristiaeth yn y DU
Cynnig Gwasanaeth Cwsmer yn y Sector Lletygarwch a Thwristiaeth
Cynllunio a Llywio Taith
Brandio Cynnyrch

Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau, tasgau ac asesiadau ymarferol, a byddwch yn ennill cymwysterau mewn:

Diploma BTEC Lefel 1 mewn Astudiaethau Galwedigaethol

[Gweithgareddau Sgiliau](#)

[Mathemateg a Saesneg](#) (os nad oes gennych chi Radd C neu uwch ar lefel TGAU)
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol. Fodd bynnag, mae diddordeb mewn dysgu am feysydd galwedigaethol gwahanol yn hanfodol.

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd angen ichi fod yn frwdfrydig, gweithio'n galed ac yn barod i roi cynnig ar bethau newydd o fewn y meysydd galwedigaethol. Bydd disgwyl ichi ymarfer eich sgiliau a thechnegau mewn amgylchedd gwaith realistig o fewn y coleg, sy'n eich galluogi i feithrin eich sgiliau cyflogadwyedd. Mae presenoldeb a phrydlondeb ym mhob sesiwn yn orfodol ar gyfer y cwrs hwn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Gallwch barhau gyda'ch astudiaethau ar Lefel 2 mewn maes galwedigaethol o'ch dewis chi
Gallwch fynd ymlaen i wneud prentisiaeth
Gallwch gael swydd yn eich maes dewisol chi

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd disgwyl ichi brynu offer er mwyn sicrhau eich diogelwch wrth ichi ymgymryd ag elfennau ymarferol. Gall costau ychwanegol godi yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

